OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 1011

# Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020

## RHAN 1

Cyflwyniad

**Enwi, cymhwyso a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 12.01 a.m. ar 18 Medi 2020.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 1 mewn grym ar 18.9.2020 am 12.01 a.m., gweler **rhl. 1(3)**

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

(a) ystyr "coronafeirws" yw coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2);

(b) mae i "swyddog gorfodaeth" yr ystyr a roddir gan reoliad 15;

(c) mae i "cyfarwyddyd digwyddiad" yr ystyr a roddir gan reoliad 6;

(d) ystyr "awdurdod lleol" yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;

(e) mae "mangre" yn cynnwys unrhyw adeilad neu strwythur ac unrhyw dir;

(f) mae i "cyfarwyddyd mangre" yr ystyr a roddir gan reoliad 5;

(g) mae i "man cyhoeddus" yr ystyr a roddir gan reoliad 7(2);

(h) mae i "cyfarwyddyd man cyhoeddus" yr ystyr a roddir gan reoliad 7.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Rhl. 2 mewn grym ar 18.9.2020 am 12.01 a.m., gweler **rhl. 1(3)**

**Dod i ben**

**3.**—(1) Daw'r Rheoliadau hyn i ben ar ddiwedd y dydd ar [F1 18 Ebrill 2022].

(2) Nid yw'r rheoliad hwn yn effeithio ar ddilysrwydd unrhyw beth a wneir yn unol â'r Rheoliadau hyn cyn iddynt ddod i ben.

### Diwygiadau Testunol

**F1** Geiriau yn rhl. 3(1) wedi eu hamnewid (26.3.2022) gan Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2022 (O.S. 2022/378), rhlau. 1(2), **3**

### Gwybodaeth Cychwyn

**I3** Rhl. 3 mewn grym ar 18.9.2020 am 12.01 a.m., gweler **rhl. 1(3)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020, RHAN 1.